# ECAD5002

YSGRIFENNU ACADEMAIDD

## NOD AC AMCANION

- Adborth cryno ar y Quizziz
- Ysgrifennu Academaidd: Byddwn ni'n edrych ar ffurfiau'r iaith a geir mewn ysgrifennu neu gywair academaidd
- Adolygu ar gyfer yr awdit

- Erbyn diwedd y wers, byddwch yn gallu
  - Deall hanfod ysgrifennu'n ffurfiol mewn gwaith academaidd
  - Defnyddio'r ffurfiau ffurfiol gyda mwy o hyder
  - Defnyddio berfau amhersonol a threiglo'n gywir mewn cystrawennau amhersonol.
  - Ysgrifennu gan ddefnyddio berfau cryno'r amser presennol gyda mwy o hyder
  - Cyfoethogi eich ysgrifennu gyda geirfa ac ymadroddion dadanoddi a chyflwyno.

## ADBORTH AR YR YMARFER QUIZZIZ

- Cawsoch chi 70% o'r cwestiynau yn gywir fel dosbarth – da iawn.
- Y cwestiynau cafodd y mwyafrif ohonoch chi'n anghywir oedd …

4. Pa un ydy'r 'berf'?

| | | |
|---|---|---|
| a darllenon | 12 players | 46 % |
| b canu | 12 players | 46 % |
| c safiad | 0 players | 0 % |
| d diogel | 2 players | 8 % |
| Unattempted | 0 players | 0 % |

3. Pa un ydy'r 'berfenw'?

| | | |
|---|---|---|
| a defnyddiais | 4 players | 15 % |
| b gallu | 9 players | 35 % |
| c gwelwyd | 4 players | 15 % |
| d cân | 9 players | 35 % |
| Unattempted | 0 players | 0 % |

12. Pa un ydy'r 'berfenw'?

| | | |
|---|---|---|
| a disgybl | 14 players | 54 % |
| b disgyblu | 8 players | 31 % |
| c disgyblaeth | 2 players | 8 % |
| d disgybledig | 2 players | 8 % |
| Unattempted | 0 players | 0 % |

Y gwahaniaeth rhwng berf a berfenw…


QUIZZIZ …
Pwy/beth ydy'r gwrthrych?
7. Beth yw'r gwrthrych yn y frawddeg hon?
Gwelais y disgybl yn y dosbarth ddoe
a y disgybl 10 players 38 %
b fi 1 players 4 %
c y dosbarth 15 players 58 %
d ddoe 0 players 0 %
Unattempted 0 players 0 %


QUIZZIZ …
Y Treiglad Llaes
22. Gorffennwch y rheol…
Bydd 'ei' (her) yn achosi…
a …treiglad llaes 12 players 46 %
b …treiglad meddal 11 players 42 %
c …treiglad trwynol 0 players 0 %
d …dim newid 3 players 12 %
Unattempted
34. Pa un sy'n gywir?
a tair crocodeil 4 players 15 %
b tri crocodeil 11 players 42 %
c tri chrocodeil 10 players 38 %
d tair grocodeil 1 players 4 %
Unattempted 0 players 0 %


QUIZZIZ…
Berfau – yn benodol yr amser amherffaith …
19. Pa frawddeg sy gyfystyr â hon?
Roeddwn i'n cerdded i'r ysgol bob dydd pan oeddwn i'n blentyn.
a Cerddwn i'r ysgol bob dydd… 5 players 19 %
b Cerddais i'r ysgol bob dydd… 19 players 73 %
c Cerddaf i'r ysgol bob dydd… 2 players 8 %
Unattempted 0 players 0 %
Ychwanegwch adferf at frawddegau a, b, c uchod er mwyn dangos eich bod yn deall PRYD maen nhw'n digwydd.

## CYWAIR IAITH …

- Beth ydy Cywair?

Ond cofiwch:

- Nid dau begwn â gofod mawr rhyngddyn nhw yw'r ffurfiol a'r anffurfiol, ond graddfa sy'n symud yn raddol o'r naill begwn i'r llall.

1 2 3 4 5

ANFFURFIOL ---------------------------------------------------------------------------FFURFIOL
llafar

- Beth am y cywair llenyddol? Ffurfiol? Anffurfiol?

## Deall hanfod ysgrifennu'n ffurfiol mewn gwaith academaidd

- Mae gwahaniaethau mawr rhwng iaith ffurfiol safonol a iaith lafar. Wrth gwrs, ni ellir gwadu bod lle i'r ddau gywair, ond rhaid bod yn glir na ddylid cynnwys iaith lafar na thafodiaith mewn gwaith ysgrifenedig academaidd.
- Darllenwch yr adroddiadau byr ar y sleid canlynol, a cheisiwch gymharu iaith y ddau.

## CYMHARWCH

Beth sy'n wahanol yn y ddau ddarn? Pa un sy fwyaf 'ffurfiol'? Pam?

Roeddwn i wedi gofyn am help wrth griw o fyfyrwyr o Brifysgol Cymru Caerdydd i ateb cwpl o gwestiyne am geneteg tylluanod. Ro'n i wedi bod yn aros am sbel yn Undeb y Myfyrwyr cyn iddyn nhw roi gyrraedd. Ar ôl iddyn nhw roi gwybodaeth i mi roedd rhywle gyda fi i ddechrau fy nhraethawd.

Gofynnais am gymorth criw o fyfyrwyr o Brifysgol Cymru Caerdydd i ateb rhai cwestiynau am geneteg tylluanod. Bûm yn aros am amser hir yn Undeb y Myfyrwyr cyn iddynt gyrraedd. Ar ôl iddynt roi gwybodaeth i mi yr oedd gen i fan cychwyn da i'm traethawd.

## CANLYNIADAU

- Berfau cryno yn lle berfau cwmpasog: gofynnais i / bûm i
- Geiriau Cymraeg yn lle geiriau benthyg: cwpl / sbel
- Safoni'r iaith: Wedi > Ar ôl
- Dim talfyrru geiriau: cwestiyne > cwestiynau
- Defnyddio cystrawen gen i yn lle gyda fi i fynegi meddiant.
- Defnyddio ffurfiau ffurfiol arddodiaid rhediadol a hepgor rhagenwau: iddynt

| Anffurfiol | Ffurfiol |
|---|---|
| berfau cwmpasog neu beriffrastig e.e. mae'r plant yn cerdded i'r ysgol/wnaiff y plant gerdded i'r ysgol | berfau cryno e.e. cerdda'r plant i'r ysgol |
| ffurf amhersonol gwmpasog, e.e. cafodd y llyfr ei ddarllen, darllenodd rhywun y llyfr | ffurf amhersonol gryno e.e. darllenwyd y llyfr |
| negyddu: dim e.e. ddarllenodd Siôn ddim y papur | ni e.e. ni ddarllenodd Siôn y papur |
| cwestiynau: ddarllenodd X y papur? | a ddarllenodd X y papur? |
| peidiwch â … cherdded ar y glaswellt | na: na cherddwch ar y glaswellt |
| nhw | hwy/hwynt |
| ffurfiau ar rai ansoddeiriau e.e. gwyn, syml, byr, du ayb | wen, gwynion, seml, fer,byrion, duon ayb |
| defnydd helaeth ar 'wnaeth' a 'ddaru' fel berfau cynorthwyol | amser y ferf |
| Rhagenwau dangosol: y dyn yma/y ddynes yma/y bobl yma | hwn/hon/y bobl hyn |

## TERFYNIADAU FFURFIOL




- Iddyn nhw
- Wrtho i
- Gennyn ni

- Gwelon ni
- Byddan nhw

- Iddynt
- Wrthyf
- Gennym

- Gwelom
- Byddant (hwy)



## Yr Amhersonol: Termau allweddol

- Berf
- Terfyniad
- Gwrthrych
- Goddrych

## BETH YW GODDRYCH A GWRTHRYCH?

*Siaradodd pawb Gymraeg.*

goddrych — gwrthrych

Pwy? — Beth?

## EICH TRO CHI…

Pwy yw'r goddrych?
Beth yw'r gwrthrych?

Ysgrifennodd y doctor lythyr.
Cafodd y fenyw ddamwain.
Gwelodd Huw ddrama dda.
Coginiodd fy mam ginio blasus.
Plannais flodau yn yr ardd

## YR AMHERSONOL ...

Bydd terfyniad y ferf fel arfer yn dangos y person a'r amser i ni.

Ond, bydd berfau amhersonol yn dangos yr amser yn unig.

Fyddan nhw ddim yn dweud wrthym pwy/beth sy'n gwneud y ferf (y goddrych).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **-ir** | Yr amser presennol | Cynhelir | Cynhelir cyngerdd yn y neuadd heddiw |
| **-wyd** | Yr amser gorffennol | Cynhaliwyd | Cynhaliwyd cyngerdd yn neuadd neithiwr |
| **-id** | Yr amser amherffaith | Cynhelid | Cynhelid cyngerdd yn y neuadd bob nos Iau |

Beth ydych chi'n sylwi am wrthrych y berfau amhersonol?

## YR AMHERSONOL ...

Gallwn ychwanegu'r goddrych (pwy) ar ddiwedd y frawddeg trwy ychwanegu ffurf briodol 'gan ...'

Cynhaliwyd <u>c</u>yngerdd yn y neuadd neithiwr **gan** Gôr Meibion Llanelli.

Cynhelir <u>c</u>yngerdd yn y neuadd heno **ganddyn** nhw.

**SYLWCH!**
**Dydy gwrthrych berf amhersonol ddim yn treiglo ...**

## TREIGLADAU

Trefn arferol y frawddeg Gymraeg ydy **Berf + Goddrych + Gwrthrych**, e.e.

Rhedodd y ferch y ras.

Ysgrifennodd y bardd gerdd.

Dylai'r plant gael gwersi.

Fodd bynnag, nid yw'r brawddegau sy'n cynnwys yr amhersonol yn dilyn y drefn yma. Gyda ffurfiau'r amhersonol, mae'r gwrthrych yn dilyn y ferf a'r goddrych neu'r person sy'n gyfrifol am y weithred yn dod ar ôl ffurf briodol **gan**, e.e.

Rhedwyd ras gan y ferch.

Ysgrifennwyd y gerdd gan y bardd.

Ysgrifennwyd yr englyn ganddo ef.

## COFIWCH

Does dim treiglad meddal yn dilyn terfyniadau’r amhersonol, e.e.

Ysgrifennodd y bardd gerdd. > Ysgrifennwyd cerdd gan y bardd

## BERFAU DEFNYDDIOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylid | Synhwyrir | Amlinellir | Gofynnir |
| Gwelir | Dywedir | Gellir | |
| Clywir | Pwysleisir | Bwriedir | |
| Teimlir | Awgrymir | Rhoddir | |

## CYWIRWCH: YSGOL NEWYDD

Neithiwr, yn Neuadd y Dre, Llangawr, cynhelir cyfarfod cyhoeddus pryd trafododd yr ysgol newydd. Dywedwyd y Cadeirydd, Mr Alwyn Jones, bod y Cyngor Sir wedi paratoi cynlluniau manwl a chroesawyd Mr Jones y pensaer, Nick Hughes, i’w hegluro. Dangoswyd y pensaer y cynlluniau, gofynnodd sawl cwestiwn pwrpasol gan aelodau’r cyhoedd a chafodd ambell ateb boddhaol. Eglurwyd Nick Hughes na fydd yr adeiladau newydd yn gwneud niwed i’r amgylchedd nac i drafnidiaeth yr ardal. Ar ddiwedd y noson cafon nhw paned a chacen wedi’u paratoi gan y pwyllgor a phenderfynodd gynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.

## CYWIRWCH: YSGOL NEWYDD

Neithiwr, yn Neuadd y Dre, Llangawr, cynhelir cyfarfod cyhoeddus pryd trafododd yr ysgol newydd. Dywedwyd y Cadeirydd, Mr Alwyn Jones, bod y Cyngor Sir wedi paratoi cynlluniau manwl a chroesawyd Mr Jones y pensaer, Nick Hughes, i'w hegluro. Dangoswyd y pensaer y cynlluniau, gofynnodd sawl cwestiwn pwrpasol gan aelodau'r cyhoedd a chafodd ambell ateb boddhaol. Eglurwyd Nick Hughes na fydd yr adeiladau newydd yn gwneud niwed i'r amgylchedd nac i drafnidiaeth yr ardal. Ar ddiwedd y noson cafon nhw paned a chacen wedi'u paratoi gan y pwyllgor a phenderfynodd gynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.

## Defnyddio Berfau Amhersonol a Threiglo'n Gywir Mewn Cystrawennau Amhersonol.

- -ir y presennol e.e. dywedir
- -wyd y gorffennol e.e. ysgrifennwyd
- -id yr amherffaith a'r amhenodol e.e. edrychid
- -er y gorchmynnol e.e. sylwer

---

- Nid yw'r terfyniadau hyn yn dweud pwy sy'n gweithredu.
- Mae'r gweithredwr yn cael ei nodi ar ôl gan, e.e. Ysgrifennwyd dau lythyr gan Efa.
- Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e. Cyhoeddwyd dyddiad y cyfarfod nesaf.
- Mae ni neu nid yn cael eu gosod o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal, e.e. Ni lwyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd. Ni chyhoeddir y dyddiad gan y Cadeirydd tan ddiwedd y cyfarfod.




## BERFAU CRYNO: PRESENNOL

- Nid yw'n addas defnyddio'r amhersonol bob tro. Yn aml, rydym yn cyfeirio yn uniongyrchol at berson, sy'n gwneud rhywbeth.

## Berfau Cryno'r Amser Presennol

| **Ffurf Gwmpasog:** defnyddio nifer o eiriau i ffurfio berf | **Ffurf Gryno:** berf un gair |
|---|---|
| **Unigol** | **Unigol** |
| 1. Rydw i'n credu | 1. Credaf i |
| 2. Rwyt ti'n credu | 2. Credi di |
| 3. Mae ef/hi yn credu | 3. Cred/Creda ef/hi |
| **Lluosog** | **Lluosog** |
| 1. Rydym ni'n credu | 1. Credwn ni |
| 2. Rydych chi'n credu | 2. Credwch chi |
| 3. Maen nhw'n credu | 3. Credant hwy/Credan nhw |

**Berf Amhersonol**
Mae berf amhersonol yn cyfeirio at y gweithgaredd yn unig, sef berf heb berson yn perthyn iddi.
**Amser presennol:** Credir
**Negyddol:** Ni chredir

## 3YDD PERSON UNIGOL

Yn hytrach na defnyddio berfau cwmpasog yn eich gwaith ysgrifenedig, defnyddiwch ferfau cryno. Golyga hyn eich bod yn ysgrifennu'n academaidd ac yn ffurfiol, ac y mae i'r gwaith naws safonol.

## YMARFERION A MWY

### BERFAU - Y Ffurf Gryno

*(atebion tud. 60/61)*

**Dewiswch yr ateb cywir.**

e.e. Mae'r arbenigwyr yn mynnu ...

**Mynna'r arbenigwyr;** Mynnant yr arbenigwyr; Mynnodd yr arbenigwyr.

1 Mae'r traethawd yn esbonio ...

Esboniodd y traethawd; Esbonia'r traethawd; Esboniant y traethawd.

2 Mae'r ystadegau'n dangos ...

Dengys yr ystadegau; Dangos yr ystadegau; Dangosant yr ystadegau.

3 Mae'r arbrawf yn profi ...

Profa'r arbrawf; Pryf yr arbrawf; Pryfant yr arbrawf.

4 Mae pawb yn gwybod ...

Gwybydda pawb; Gwydda pawb; Gŵyr pawb.



5 Mae'r gwyddonwyr yn dweud ...

Dweda'r gwyddonwyr; Dywed y gwyddonwyr; Dywedid y gwyddonwyr.

6 Mae'r adroddiad yn pwysleisio ...

Pwyslasa'r adroddiad; Pwysl yr adroddiad; Pwysleisia'r adroddiad.

7 Mae'r crynodeb yn amlinellu ...

Amlinella'r crynodeb; Amlinellid y crynodeb; Amlinellant y crynodeb.

8 Mae'r ystadegau'n awgrymu ...

Awgryma'r ystadegau; Awgrym yr ystadegau; Awgrymaid yr ystadegau.

9 Mae'r newyddiadurwyr yn gweld ...

Gwelant y newyddiadurwyr; Gwelid y newyddiadurwyr; Gwêl y newyddiadurwyr.

10 Mae'r ysgolheigion yn synhwyro ...

Synywrid yr ysgolheigion; Synhwyra'r ysgolheigion; Synŵyrant yr ysgolheigion.



100 CANLLAW

## ATEBION

**Tudalen 2-3**

1 Esboniodd y traethawd; **Esbonia'r traethawd**; Esboniant y traethawd.

2 **Dengys yr ystadegau**; Dangos yr ystadegau; Dangosant yr ystadegau.

3 **Profa'r arbrawf**; Pryf yr arbrawf; Pryfant yr arbrawf.

4 Gwybydda pawb; Gwydda pawb; **Gŵyr pawb**.

5 Dweda'r gwyddonwyr; **Dywed y gwyddonwyr**; Dywedid y gwyddonwyr.

6 Pwyslasa'r adroddiad; Pwysl yr adroddiad; **Pwysleisia'r adroddiad**.

7 **Amlinella'r crynodeb**; Amlinellid y crynodeb; Amlinellant y crynodeb.

8 **Awgryma'r ystadegau**; Awgrym yr ystadegau; Awgrymaid yr ystadegau.

9 Gwelant y newyddiadurwyr; Gwelid y newyddiadurwyr; **Gwêl y newyddiadurwyr.**

10 Synywrid yr ysgolheigion; **Synhwyra'r ysgolheigion**; Synŵyrant yr ysgolheigion.

**Tudalen 4**

1 **Dangosir** bod y byd yn cynhesu.

2 **Profir** bod y sefyllfa'n gwaethygu.

3 **Gwelir** nad yw'n sefyllfa ddelfrydol.

4 **Amcangyfrifir** y bydd y canlyniadau'n dangos gostyngiad.

5 **Dywedir** nad yw hyn yn ddrwg i gyd.

100 CANLLAW2

Enghreifftiau defnyddiol o ferfau cryno yw'r rhai isod:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| erys | cyfeddyf | cyfyd | saif | pair | llywia |
| gwresoga | mentra | dywed | pwysleisia | caiff | |

Allwch chi ddyfalu o ba ferfau cwmpasog y mae'r uchod wedi dod?

Y mae ________ yn cael ... ____________

Y mae ________ yn gwresogi... ____________

Y mae________ yn codi... ____________

Y mae ________ yn mentro... ____________

Y mae ________ yn aros... ____________

Y mae ________ yn cyfaddef... ____________

Y mae ________ yn peri... ____________

Y mae ________ yn sefyll... ____________

Y mae ________ yn llywio... ____________

Y mae ________ yn pwysleisio... ____________

Y mae ________ yn dweud... ____________

## Cyfoethogi Eich Ysgrifennu Gyda Geirfa ac Ymadroddion Dadansoddi a Chyflwyno

| | |
|---|---|
| • Achos | Oherwydd |
| • Siwr o fod | Yn ddiau / Bid siŵr |
| • Fel | Megis |

| | | |
|---|---|---|
| a dweud y lleiaf | amherthnasol | ar y llaw arall |
| at ei gilydd | camddehongli ffeithiau / tystiolaeth | |
| darlun teg | dadl ddi-sail | dengys |
| er hynny | eto i gyd | ffolineb llwyr |
| gorliwio | gwaetha'r modd | gŵyr |
| gwyrdroi'r gwir | heb amheuaeth | mae hyn yn cadarnhau |
| mynna hyn fod... | ni ellir anwybyddu / gwadu | parthed |
| serch hynny | wrth reswm | yn ddiau |
| yn ddi-os | yn gyffredinol | yn ôl pob tebyg |
| yn sicr | yn yr un modd | ystyrier |

## TALFYRRU GEIRIAU

| | |
|---|---|
| • Gwna | Gwnaf |
| • Fory | Yfory |
| • Sgrifennu | Ysgrifennu |
| • Tre | Tref |

## ADOLYGU AR GYFER YR AWDIT …

GAME CODE

211875

Ask your students to join game with this code at
https://join.quizizz.com